

CYLCHLYTHYR

G A E A F / G W A N W Y N 2 0 2 4

R H I 4

*'I sicrhau'r canlyniadau gorau i holl ddiodefwr trais
rhywiol drwy ddarparu gwasanaethau ymosodiad
rhywiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig
ar drawma yng Nghymru'*



CROESO gan Wendy Gunney

Prif Gwnstabl Cynorthwyol

Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer Achrediad ISO SARC De Cymru Heddlu De Cymru

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i gydweithwyr yn yr heddlu, ein partneriaid a'r rheini sy'n gweithio yn ein canolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (GYRC) gweithredol am eu hymdrechion a'u cyfraniadau parhaus.

Gyda'n gilydd, gyda chymorth cydweithwyr, rydym wedi gallu gwneud cynnydd sylweddol o ran achredu gwasanaethau fforensg ar gyfer diodefwr ymosodiadau rhywiol.

Mae GYRC Abertawe yn parhau i fod yn safle braenaru yn y DU, sy'n golygu ei bod yn un o'r rhai cyntaf i weithio tuag at gyrraedd safonau achredu, ac er ein bod yn elwa o gymorth ac arweiniad ychwanegol gan y tîm asesu, nid yw troedio'r llwybr hwn yn dasg hawdd. Mae Abertawe eisoes wedi cynnal ei rhagasesiad, a fydd yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth sy'n cydymffurfio i ddiodefwr.

Rydym yn gobeithio gwahodd tîm Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) i gynnal asesiad achredu llawn o Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (GYRC) Abertawe erbyn hydref 2024. Mae cynllun manwl ar gyfer rhaglen sy'n cwmpasu'r tri safle yn Ne Cymru a'r estyniad i ymarferion cwmpasu ar gyfer gwasanaethau pediatrig yn Abertawe a Chaerdydd wedi cael ei baratoi erbyn hyn. Mae cynllun ar wahân ond yr un mor fanwl wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y gwasanaeth yng Ngogledd Cymru, a bydd Heddlu Gogledd Cymru yn bwrw ymlaen â hwn.

Mae tîm yr heddlu wedi cael ei ailstrwythuro ac mae Cydlynnydd newydd ar gyfer Rhaglen Plismona Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru wedi cael ei benodi'n ddiweddar i roi hwb i'r gwaith o ddarparu'r bartneriaeth. Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, bydd diweddariadau'n cael eu cynnwys mewn cylchlythyrau yn y dyfodol.

Diolch yn fawr

DIWEDDARIAD AM RHAGLEN GYRC

Mae prif weithgareddau'r Rhaglen ar gyfer 2024 yn cynnwys rhoi camau terfynol y model prif ganolfan a lloerennau rhanbarthol ar waith ar gyfer de-ddwyrain, gorllewin a chanolbarth Cymru; bodloni achrediad ISO ar gyfer gwasanaethau ffrensic mewn canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (GYRC); a datblygu Fframwaith Comisiynu Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol ar gyfer Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith diweddaraf a diweddariadau allweddol i'w gweld isod.

Gweithredu'r Model Prif Ganolfan a Lloerennau Rhanbarthol

Mae gwybodaeth gefndirol am y [Model Prif Ganolfan a Lloerennau Rhanbarthol](#) ar gael ar ein gwefan.

Ailgyfeirio achosion ffrensic aciwt o 'lloerennau' i 'ganolfannau'

Mae'r gwaith o ailgyfeirio achosion ffrensic aciwt yn rhanbarth de-ddwyrain Cymru bron iawn wedi'i gwblhau.

Mae pob achos aciwt o Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Merthyr Tudful ac achosion o fewn oriau Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Rhisga bellach yn cael eu gweld yng Nghanolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Ynys Saff yng Nghaerdydd.

Disgwylir i achosion Tu Allan i Oriau Rhisga gael eu trosglwyddo yng Ngwanwyn 2024.

Mae'n hanfodol nodi bod yr holl wasanaethau eraill – gweithwyr argyfwng a chyflawni cyfweiliadau tystiolaeth gorau, cwnsela, a chynghorwyr trais rhywiol annibynnol – yn parhau i weithredu o Ferthyr Tudful a Rhisga wrth iddynt ddod yn 'loerennau' CAYR ar gyfer eu cymunedau lleol.

Yn rhanbarth de-orllewin a chanolbarth Cymru, disgwylir y bydd achosion aciwt yng Nghanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Caerfyrddin a'r Drenewydd yn cael eu trosglwyddo i Ganolfannau perthnasol yn nes ymlaen yn 2024.

Canolfan Bediatrig Abertawe

Mae'r gwaith ar Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Pediatrig newydd Abertawe yn mynd rhagddo'n dda.

Mae'r gwaith hwn yn cael ei arwain gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, gan weithio'n agos â Llwybrau Newydd a chydweithwyr yn yr heddlu, ac mae Bwrdd Prosiect wedi cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith adeiladu ac i ddatblygu'r gweithlu ategol.

Bydd y Ganolfan Bediatrig newydd yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i blant a theuluoedd yng ngorllewin Cymru, sydd ar hyn o bryd yn teithio i Ynys Saff yng Nghaerdydd ar gyfer archwiliadau meddygol ffrensic.



Bydd y Ganolfan hefyd yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer archwiliadau hanesyddol.

Prosiectau a gweithgareddau Cymru gyfan

Fframwaith Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i Gymru

Mae gwaith wedi dechrau ar 'Fframwaith Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol i Gymru'.

Ar ôl ei gwblhau, bydd y Fframwaith yn darparu set genedlaethol o safonau gofal, gweithgareddau a disgrifyddion gwerthuso ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai ar-lein gyda gweithwyr proffesiynol ddiwedd 2023 i drafod 'beth mae da yn ei olygu' yng nghyswllt gwasanaethau a chymorth gan ganolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol.

Edrychodd y rhai a oedd yn bresennol ar y gwahanol gamau sydd ynghlwm â chael gafael ar gymorth - o ymwybyddiaeth gyffredinol o ganolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol a sut i gael gafael arnynt; i'r hyn sy'n digwydd pan fydd rhywun yn barod i symud ymlaen o'r gwasanaethau cymorth hyn.

Roedd y gweithdai'n seiliedig ar adborth a gasglwyd o sesiynau ymgysylltu blaenorol â goroeswyr. Cynhaliwyd sesiwn hefyd gyda Phanel Goroeswyr ar 24 Ionawr 2024, pan gafodd testun drafft cychwynnol o'r Fframwaith ei rannu a'i drafod.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y gweithdai ymgysylltu hyn. Mae'r syniadau a'r awgrymiadau a gasglwyd yn ein helpu i ddrافتio'r Fframwaith a gwneud cynlluniau ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

Bwriedir cynnal digwyddiad ar-lein yn ystod Gwanwyn 2024, i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y Fframwaith a bydd yn agored i bawb.

Byddwn yn hysbysebu hyn drwy ein rhestr bostio.

Adolygiad o Wasanaethau Cwnsela

Bydd adolygiad o wasanaethau cwnsela ar gyfer goroeswyr ymosodiadau rhywiol yng Nghymru yn cael ei lansio dros y mis nesaf.

Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer hyfforddiant a chynllunio gwasanaethau, a ddylai yn y pen draw wella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i oroeswyr yng Nghymru.

CYFLWYNO EIN PARTNERIAID CYDWEITHREDOL

Hoffem eich cyflwyno i rai o'r unigolion a'r timau rydyn ni'n gweithio â nhw er mwyn i chi ddysgu mwy am y gwaith anhygoel maen nhw'n ei wneud!



Uned Atal Trais Violence Prevention Unit

Tsefydlwyd Uned Atal Trais Cymru (UAT) gyda chyllid gan y Swyddfa Gartref yn 2019. Ei nod cyffredinol yw arwain dull system gyfan o atal a lleihau trais drwy ddull iechyd y cyhoedd, drwy geisio deall beth sy'n achosi trais ar sail tystiolaeth a defnyddio hyn i ddatblygu ymyriadau sy'n canolbwyntio ar atal achosion sylfaenol trais.

Mae cydweithio amlasiantaeth i atal pob math o drais wrth galon yr Uned Atal Trais, gyda chynrychiolaeth o Heddlu De Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, yn ogystal â chymorth gan dros 30 o sefydliadau amlsectoraidd.

Mae'r Uned Atal Trais yn cael cymorth ychwanegol gan ddarparwyr gwasanaethau a phartneriaid addysg Cymreig ar draws y sectorau academia ac ymchwil, addysg, iechyd, awdurdodau lleol, cyfiawnder troseddol a phrawf ac elusennau (trydydd sector/sector gwirfoddol).

Er mwyn cyflawni ei nod, mae'r Uned yn gweithredu ar **bedair lefel wahanol**:

- 1. Ymwybyddiaeth** - Gwybodaeth am epidemioleg (h.y. tystiolaeth, theori) ac arferion gorau ar lefelau lleol a chenedlaethol.
- 2. Eirioli** - Cefnogi ac eiriol dros ddull iechyd y cyhoedd o atal trais drwy arweiniad yr Uned Atal Trais.
- 3. Cynorthwyo** - Darparu cyngor a gwasanaeth dadansoddi data fel drwy'r Asesiad Anghenion Strategol.
- 4. Mabwysiadu** - Llywio a dylanwadu ar weithrediad strategol yr Uned Atal Trais a phartneriaid.

Porth Atal Trais Cymru!



Mae'r Uned Atal Trais wedi creu Porth Atal Trais Cymru (PATC) mewn partneriaeth â Sefydliad Iechyd Cyhoeddus Prifysgol John Moores yn Lerpwl.

Mae'r llwyfan digidol yn cynnwys data gweinyddol amlasiantaeth dienw sy'n craffu ar drais ledled Cymru ac sy'n caniatáu defnyddwyr i gasglu gwybodaeth at ei gilydd o wahanol ffynonellau data a'i chyflwyno drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gan gynnwys graffiau, siartiau, tablau, adroddiadau a mapiau rhyngweithiol o ardaloedd lleol a chenedlaethol.

Ffocws Porth Atal Trais Cymru yw cefnogi partneriaid yng Nghymru i gyflwyno dull iechyd cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer atal trais.

Gall partneriaid nodi a monitro tueddiadau mewn trais ar lefel leol a chenedlaethol, meincnodi gwasanaethau presennol, llywio strategaethau atal trais drwy asesiadau o anghenion a nodi grwpiau sydd mewn perygl; gyda'r potensial i werthuso effaith ymyriadau.

Ar ben hynny, mae'r Porth yn rhoi'r modd i bartneriaid rannu adroddiadau ar lefel perfformiad gwasanaeth ac adroddiadau crynodeb data yn ddiogel yn y Storfa Adroddiadau.



Straen
Trawmatig
Cymru

Traumatic
Stress
Wales

Arolwg Adolygu Cwnsela Ymosodiadau Rhywiol



Annwyl Gydwethiwr,

Hoffai'r Llif Gwaith Ymosodiadau Rhywiol yn Straen Trawmatig Cymru sy'n gweithio gyda Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru eich gwahodd i gymryd rhan yn ein gwasanaeth mapio i'n helpu i ddeall darpariaeth gwasanaethau cwnsela i oroeswyr ymosodiad rhywiol ledled Cymru.

Mae cymorth therapiwtig a chwmsela i oroeswyr ymosodiadau rhywiol yn wasanaeth hanfodol y mae angen i ni ei ddarparu ar gyfer goroeswyr o bob oed ac ar unrhyw gam ar eu taith.

Rydym yn ymwybodol bod llawer o sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ymosodiadau rhywiol arbenigol ac eraill sy'n darparu'r cymorth hwn fel rhan o ddarpariaeth gwasanaeth ehangach.

Hoffem ofyn i'r holl wasanaethau sy'n darparu unrhyw gwnsela i oroeswyr ymosodiadau rhywiol yng Nghymru gwblhau'r arolwg hwn i'n helpu i gael cipolwg i ba wasanaethau sy'n cael eu darparu, a'n helpu i sefydlu a chynllunio pa wasanaethau sydd eu hangen.


Mae'r dolen isod ar agor o 29 Chwefror tan 1 Ebrill 2024.

<https://forms.office.com/e/C8Y368phkW>

- - Fersiwn Saesneg

<https://forms.office.com/e/yxKRb8FNgj>

- Fersiwn Cymraeg



Thank you in advance for taking the time to complete this questionnaire and helping us to get a better picture of counselling services for sexual assault across Wales.

DIGWYDDIADAU AC ADNODDAU

Rhannu dysgu ac ymarfer da!



Sesiwn 'Dysgu dros Ginio' gan GYRC

Mae tîm y Gwasanaeth wedi cyflawni ei flwyddyn gyntaf o sesiynau dysgu dros ginio ar-lein, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2023 dros MS Teams.

Cynhaliwyd 10 sesiwn fisol ar-lein ac roedd 250 o bobl ar gyfartaledd wedi ymuno yn y sesiynau, gyda'r nod o ymgysylltu ag ystod eang o weithwyr proffesiynol o sefydliadau amlasiantaeth a chryfhau dealltwriaeth o 'arferion gorau' wrth ryngweithio â dioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol.

Lansiwyd sesiwn 'dysgu dros ginio' gyntaf 2024 yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Gam-drin Rhywiol a Thrais Rhywiol, sef yr wythnos gyntaf ym mis Chwefror. Rhoddodd Joanna Williams, Cyfarwyddwr Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, gyflwyniad ar y pwnc 'Trosolwg o Wasanaethau Ymosodiadau Rhywiol' gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael ledled Cymru ar hyn o bryd, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Rhaglen.

Gwyliwch yma!

- **Helpwch ni i gynllunio sesiynau dysgu dros ginio** ar gyfer y dyfodol a mynegi eich barn am y pynciau yr hoffech chi eu gweld yn cael sylw yn y misoedd i ddod!

Gan fod y sesiwn nesaf wedi'i chynllunio ar gyfer **canol/diwedd mis Mai**, hoffem glywed eich syniadau erbyn dydd **Gwener 22 Mawrth 2024**.

WSAS.programme@wales.nhs.uk



Gwyliwch yma!

Cynhadledd GYRC 19 Mehefin 2024

TMae tîm y Gwasanaeth yn edrych ymlaen at eich croesawu i'w Gynhadledd ar-lein ddydd **Mercher 19 Mehefin 2024**, rhwng **10am a 2pm**.



Cadwch lygad gan fod gwaith cynllunio ar y gweill a bydd rhagor o wybodaeth am y siaradwyr a'r agenda'n cael ei rhannu drwy ein rhestr bostio maes o law.

Bydd y gynhadledd eleni yn canolbwyntio ar wasanaethau a chefnogaeth i blant a phobl ifanc.

Gweithdy yng Nghynhadledd Llwybrau Newydd 2023

Wrth edrych yn ôl ar 2023, cafodd Cyfarwyddwr Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru, Joanna Williams, a Dr Catrin Simpson, Arweinydd Clinigol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc, y ffrind o redeg un o'r pum gweithdy yng Nghynhadledd Trais Rhywiol Llwybrau Newydd, 'Mae'n cymryd 30 mlynedd' a gynhaliwyd ar 27 Medi 2023 yng Nghaerdydd.



Roedd y gweithdy 'Llunio Dyfodol Gwasanaethau Trais Rhywiol' yn edrych ar y gwasanaethau CAYR sydd ar gael ledled Cymru ac ar y gwaith o ddatblygu Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru.

Diolch i bawb a ddaeth i'r sesiwn!

Fideos newydd yn disgrifio'r cymorth sydd ar gael mewn canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol

Mae casgliad o fideos byr sy'n rhoi manylion y cymorth sydd ar gael mewn canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol bellach i'w gweld ar-lein ar dudalen we GYRC.

Mae'r fideos hyn yn ymuno ag animeiddiad Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru sydd eisoes ar gael ac a ryddhawyd yn 2022, sy'n rhoi trosolwg o'r gwasanaethau a'r cymorth o safbwynt goroeswyr trais rhywiol.

Hoffem ddiolch o galon i holl staff GYRC a gymerodd ran yn y prosiect hwn.

Rhannwch y fideos hyn yn eich sefydliadau - gellir eu defnyddio mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys ar gyfer hyfforddiant staff ac i gefnogi unigolion sy'n ystyried defnyddio gwasanaethau canolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol.

Gwylwch yr animeiddiad!



Gyuliwch y fideos!



Animeiddiad Hyb ACE Cymru

Mae Cymru sy'n Ystyriol o Drawma wedi lansio animeiddiad sy'n dod â Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma yn fyw: 'Dull Cymdeithasol o Ddeall, Atal a Chefnogi Effeithiau Trawma ac Adfyd' ar gyfer cynulleidfa ehangach.


Gallwch ddarllen Fframwaith Cymru sy'n Ystyriol o Drawma yn llawn [yma](#)


Mae'r animeiddiad yn helpu i fynegi pedair lefel ymarfer ddiffiniedig y Fframwaith sy'n ffurfio'r dull gweithredu 'cymdeithas gyfan' sy'n seiliedig ar drawma yng Nghymru.

[Gwylwch yma!](#)

CYSYLLTWCH A MI

 WSAS.programme@wales.nhs.uk

 Dilynwch ni [@RhaglenGYRC](https://twitter.com/RhaglenGYRC)

 Ewch i'n [tudalen we](#) i ddarganfod mwy

- [Model Prif Ganolfan a Lloerennau ar gyfer Dull sy'n Ystyriol o Drawma](#)
- [Eich CAYR agosaf](#)
- [Beth sy'n digwydd mewn CAYR](#)
- [Digwyddiadau](#)
- [Cylchlythyr](#)

Os ydych chi eisiau dad-danysgrifio a chael eich tynnu oddi ar ein rhestr bostio neu os hoffech chi danysgrifio i'n cylchlythyr Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol Cymru er mwyn i chi gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r rhaglen, cyfleoedd ymgysylltu a digwyddiadau yn y dyfodol, cysylltwch â thîm y Gwasanaeth.

WSAS.programme@wales.nhs.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Ddylai neb deimlo'n ofnus gartre
Mae help ar gael ohyd, ddydd a nos

Home shouldn't be a place of fear
Help is still available 24/7